



PECYN CYMORTH I ARTISTIAID

Tuag at Bartneriaethau Creadigol -
Gweithdy Artistiaid yn Datblygu Prosiectau

CYNNWYS

Cyflwyniad	t 3
Pecyn Cymorth i Artistiaid	t 5
Cychwyn	t 7
Adnoddau	t 10
Cyflawni	t 13
Monitro a Gwerthuso	t 15
Cwblhau	t 17
Hyrwyddo	t 19
Ar ôl y Prosiect	t 21
Astudiaethau Achos	t 23
Geirfa	t 28
Offer a Diolchiadau	t 32

CYFLWYNIAD

Tuag at Bartneriaethau Creadigol - Gweithdy Artistiaid yn Datblygu Prosiectau

Rydym wedi datblygu'r pecyn cymorth syml hwn mewn ymateb i angen cydnabyddedig artistiaid ar ddechrau'u gyrfa a'r rheini sy'n parhau'n fyfyrwyr, ynghyd â chomisiynwyr prosiectau nad ydynt yn ymwneud â'r celfyddydau, fel canllawiau prosiect syml a gwybodaeth i helpu adeiladu prosiectau gwell.

Bydd y pecyn cymorth yn argymhell:

**“...proses sy'n caniatáu i ni ofyn y
cwestiynau iawn a chael y sgryrsiau iawn
ar draws sectorau gwahanol lle gwneir y
gwaith a rhwng y gwahanol randdeiliaid
sy'n cynnal yr arferion”**

(Hutchings, 2014)

Nododd ein hymchwil cychwynol, sy'n cynnwys ymchwilio i ddwy astudiaeth achos, gamau prosiect allweddol a'r materion sy'n debygol o godi:

Cam	Materion Cyffredin
Cychwyn	Nodau, amcanion, ymroddiad, addasrwydd, argaeledd, gwneud cynnydd, cyfrifoldeb.
Adnoddau	Partneriaid, disgwyliadau, argaeledd, blaenoriaethau, pryderon cyfreithiol.
Cyflawni	Ymgynghori, ymrwmiadau, disgwyliadau, cyfathrebu, cynhyrchu, cyfrifoldeb, oedi, materion cyfreithiol.
Monitro a Gwerthuso	Methodoleg, cyfrifoldeb dros, trafod canfyddiadau, hyblygrwydd.
Cwblhau	Pwynt cwblhau, creu y darn(au) gorffenedig, diffinio llwyddiant, cydnabyddiaeth.
Hyrwyddo	Perchnogaeth, cyfle, opsiynau, caniatadau.
Ar ôl y Prosiect	Etifeddiaeth, ôl-drafodaeth, cyfeirnodau, cysylltiadau cyfredol.

Rhannwyd y Pecyn Cymorth yn adrannau, wedi'u hysgrifennu ar gyfer yr artist a'r comisiynydd. Mae materion a gweithredoedd dilynol yn aml yn wahanol i'r ddau barti.

Mae'r prosiectau yn amrywiol ac mae mwy nag un ffordd i roi prosiect ar waith a'i redeg – ni luniwyd hwn i fod yn fethodoleg cyfarwyddol.

Mae'r Pecyn Cymorth yn nodi camau cyffredin gan holi cwestiynau i'ch galluogi i nodi ffyrdd o symud prosiect ymlaen, gan nodi problemau posib cyn iddyn nhw ddatblygu'n broblemau go iawn ac yn eich galluogi i ddisgrifio'ch prosiect/eich arfer i eraill.

PECYN CYMORTH I ARTISTIAID

Mae'r holiadur hwn wedi'i anelu at artistiaid sydd ar gwrs gradd, yn ddibrofiad, ac ar ddechrau'u gyrfa, sy'n gweithio ar brosiectau wedi'u seilio ar y celfyddydau gyda sefydliadau nad ydynt yn ymwneud â'r celfyddydau.

Edrycha'r Pecyn Cymorth hwn ar themâu cyffredin sy'n ymwneud â datblygu prosiectau celf a'u cyflwyno ac yn rhoi cyngor ar bryderon cyffredin. Bydd yn ddigon hyblyg i ddefnyddio ystod eang o senarios, fel:

- Prosiectau hunan-gychwynnol, h.y. datblygu cyfleoedd arddangos neu berfformio i'ch gwaith.
- Prosiectau partner-gychwynnol, h.y. darparu gweithdai ar themâu mewn galeri, ysgol neu ysbyty.
- Ymateb i alwad neu restr cyfle, lle mae arnoch angen asesu addasrwydd y prosiect ar gyfer eich arfer chi.
- Unrhyw fath o brosiect lle byddwch yn gweithio gyda phartner a lle mae rhaid trafod amserlen, amcanion a nod terfynol

Dylai ateb y cwestiynau hyn eich galluogi i:

- Nodi'r hyn rydych yn gobeithio ei ennill o'ch ymwneud â'r prosiect.
- Asesu p'un a yw'r cyfle yn briodol i'ch nodau chi eich hun.
- Disgrifio'r hyn allech chi gyfrannu at y prosiect. Bydd hyn o fudd mewn sefyllfa cyfweliad/cyflwyniad ac wrth drafod â phartneriaid.
- Monitro unrhyw newidiadau mewn gofynion wrth i'r prosiect ddatblygu, a sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu eich anghenion.
- Rhagweld unrhyw broblemau posib a gwybod sut i fynd i'r afael â nhw pe bai nhw'n codi.
- Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd y gellir eu hennill o'ch ymwneud â'r prosiect.
- Nodi 'arfer gorau' fel y gallwch ei ddefnyddio ar gyfer eich arfer eich hunan a phrosiectau'r dyfodol.
- Cydnabod eich cyfraniad i'r fath brosiectau, fel y gallwch ei ddisgrifio wrth reolwyr prosiect neu gyflogwyr yn y dyfodol.

Cychwyn

Bydd yr adran hon yn ystyried:

- Nodau ac amcanion y prosiect
- Yr ymrwymiad y gallwch ei wneud iddo o ddifrif
- Addasrwydd y prosiect i'ch arferion chi
- Fyddwch chi ar gael i weithio arno
- Eich meysydd cyfrifoldeb

Enw'r prosiect

Nodau ac amcanion:

Mae canolbwyntio ar yr hyn fydd i'w weld ar ddiwedd y prosiect yn helpu gosod disgwyliadau i bawb sy'n cymryd rhan.

Dyddiad y disgwylir y bydd y prosiect yn cychwyn:

Dyddiad y disgwylir y bydd y prosiect yn dod i ben:

Pam y dyddiad gorffen hwn? Ydy o'n hyblyg?

Beth yw cyllideb y prosiect?

Sut bydd y prosiect yn cael ei ariannu? Pwy yw'r rhanddeiliaid ariannol?

Beth yw eich rôl chi?

Gall hyn fod fel y grym creadigol (artist, dylunydd); hwyluso; datrys problemau; gweinyddu.

Ellir rhannu'r prosiect yn gyfnodau allweddol?

Eu rhestru a'u dyddiadau cau

Pa ddeilliannau ydych chi'n eu disgwyl o'r prosiect?

Pam fod hwn yn gyfle da i chi?

Beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni trwy fod yn rhan o'r prosiect neu'r cyfle hwn? Ysgrifennwch 3 neu 4 o bethau gan eu rhoi yn nhrefn eu pwysigrwydd.

Pa brofiad blaenorol o fod yn rhan o brosiect fel hwn sydd gynnoch chi?

A fuoch chi'n rhan o unrhyw brosiect fel hwn o'r blaen? A weloch chi unrhyw brosiectau tebyg?

Beth ydych chi ddim ei eisiau o'r prosiect hwn?

Faint o amser sydd gynnoch chi/ a neilltuoach chi ar gyfer rhoi'r prosiect hwn ar waith a'i gyflawni?

Sut byddwch chi'n monitro'r amser fyddwch chi'n ei roi i'r prosiect? Bydd hyn yn cynnwys cyfarfodydd ynghylch ei gychwyn a'i ddatblygu yn ogystal â chyfarfodydd am y cynnydd. Nodwch bwyntiau gweithredu o'r cyfarfodydd yn ofalus, dyma lle fydd prosiect yn siapio ac yn newid. Dylai pawb gytuno ar y newidiadau hyn fesul cam.

Pwy arall sy'n rhan o gyflawni'r prosiect?

Rhestrwch yr holl bartneriaid, helpwyr ac eraill yma. Dylid cynnwys eu teitlau a'u manylion cyswllt.

Pa brofiad blaenorol o fod yn rhan o brosiect fel hwn sydd gynnoch chi/eich partneriaid?

A fuon nhw'n rhan o unrhyw brosiect fel hwn o'r blaen?

A ydych chi'n glir o ran ymrwymiad/rolau gwahanol bartneriaid?

Pwy yw arweinydd y prosiect? Pwy sy'n gyfrifol am y gyllideb ac yn talu'r anfonebau? Pwy sy'n penderfynu? Pwy sy'n gyfrifol?

Pwy fydd eich prif gyswllt o ran y prosiect?

Gall hyn fod yn rhywun o'r sefydliad partner/noddwr neu ddarlithydd/aelod staff prifysgol.

Pwy arall fydd angen copi o'r negeseuon?

Pa ddeilliannau ydych chi'n eu disgwyl i'ch partner/holl bartneriaid o'r prosiect?

Ysgrifennwch eu henwau yma yn nhrefn eu pwysigrwydd.

Beth mae partneriaid y prosiect yn disgwyl i chi gyfrannu at y prosiect?

Fyddwch chi'n integreiddio eich arfer eich hun i'r prosiect?

Fyddwch chi'n defnyddio eich arfer eich hun yn y prosiect ac fel canllaw neu fydd y prosiect hwn ar wahân i'ch diddordebau personol? Sut all hyn effeithio ar ddatblygu'r prosiect?

Pwy fyddech chi'n ei gefnogi wrth ddod yn rhan o'r prosiect? Beth yw eu agenda?

Tasg: Defnyddiwch yr wybodaeth rydych wedi ei chasglu i drafod y prosiect. Edrychwch ar nodau ac amcanion yr artist a'r partner. Nodwch ymhle maen nhw yr un fath ac ymhle maen nhw'n wahanol. A all y prosiect gynnwys gwahaniaethau? Sut?

Adnoddau

Bydd yr adran hon yn ystyried natur yr adnoddau y bydd eu hangen arnoch i gyflawni nodau'r prosiect – y bobl eraill, deunyddiau celf, cyfleusterau ac, efallai yn bwysicaf oll, yr amser. Bydd yn edrych ar:

- Pwy sy'n gyfrifol am drefnu'r adnoddau hyn
- Gan bwy fydd y cyfrifoldebau cyfreithiol ac ariannol amdanyn nhw
- Beth fydd yn digwydd iddyn nhw ar ddiwedd y prosiect

Ble fydd lleoliad y prosiect? Ydy o'n addas at y diben?

Pa ddeunyddiau sydd eu hangen? Pwy fydd yn eu darparu?

Beth sy'n cael ei ariannu?

Byddwch yn glir o ran yr hyn sy'n cael ei ariannu – amser yr artist (ar gyfer cyfarfodydd, ymchwilio, dylunio, ymwneud â'r cyhoedd, gwneud); a yw costau fel teithio, cynhaliaeth a deunyddiau wedi'u cynnwys. Os oes cyllideb, a oes disgwyl i chi dalu am y rhain cyn cychwyn ac yna hawlio ad-daliad. Faint o amser fydd hyn ei angen? Beth mae disgwyl i chi dalu amdano?

Pwy fydd yn gweithio gyda chi yn ystod y prosiect?

A fydd angen i chi is-gontractio rhywun?

Ai chi fydd berchen y gwaith ar ôl y prosiect? Pwy fydd yn ei gynnal a'i gadw?

Fydd o'n eiddo i chi neu i'r sawl a'i gomisiynodd? A fydd gynnyn nhw hawliau llawn drosto ar ddiwedd y prosiect?

A fydd contract gynnoch chi (hyd yn oed os mae prosiect gwirfoddol ydy o)?

Dylai fod contract yn diogelu'r amser dreulioch chi ar y prosiect – mae eich amser yn bwysig. . Gall fod yn gytundeb ysgrifenedig, ar ffurf neges e-bost neu lythyr, neu yn gytundeb ysgrifenedig ffurfiol wedi'i lofnodi gan bob parti.

A oed angen yswiriant unigol arnoch chi neu fydd y comisiynydd yn darparu hyn?
Pwy fydd yn darparu yswiriant i'r prosiect a beth yn union fydd yn cael ei gwmpasu? Mae'n bosib y bydd arnoch angen cael yswiriant eich hunan yn ogystal â chomisiynwyr y prosiect, yn dibynnu ar yr hyn sydd wedi'i gwmpasu.

A ydych yn gallu ymgymryd â'r un prosiect/prosiect tebyg rhywle arall neu ydy o'n benodol i'r comisiynydd hwn?

Rhaid i chi a'r comisiynydd fod yn glir o ran p'un a allwch chi gynnal yr un prosiect ar eich pen eich hun neu gyda sefydliad arall. Ydy comisiynydd y prosiect am i'r prosiect/gwaith terfynol fod yn gyfyngedig iddyn nhw? Yn yr un modd, gall fod y partner yn disgwyl cymryd perchnogaeth o'r gwaith a gynhrychir. A ydych chi'n hapus â hyn? Os felly, gwiriwch eu bod yn mynd i gynnal a chadw ac yswirio'r gwaith corfforol a gynhrychir yn briodol.

Beth yw protocol cysylltiadau cyhoeddus (PR) y prosiect?

Pwy fydd yn gyfrifol am ddosbarthu cyhoedduswydd a sut bydd hynny'n cael ei wneud? Pwy arall ddylid sôn amdany'n nhw yn eich ymdrechion hyrwyddo? A oes angen cynnwys logos partneriaid?

Tasg: Gwnewch gynllun prosiect yn dangos sut y byddwch yn diwallu anghenion eich partneriaid o fewn yr amserlen a osodwyd, gan ystyried galwadau eraill ar eich amser

Cyflawni

Gallai 'Cyflawni' gyfeirio at ddarparu gweithdai, cwblhau dyluniad, cynnal arddangosfa neu berfformiad, gosod gwaith mewn gofod. Yn ei ystyr ehangaf, golyga'r pwynt lle byddwch yn rhyngweithio gydag eraill i wireddu eich prosiect – i wneud iddo ddigwydd.

Edrycha'r adran hon ar 'gynulleidfa' eich prosiect – hynny yw cyfranogwyr y prosiect a'r sawl fydd yn gweld y gwaith gorffenedig.

Bydd yn ystyried:

- Disgwyliadau'r gynulleidfa
- Sut gallwch fodloni anghenion y gynulleidfa orau
- Y materion cyfreithiol a all godi wrth weithio gydag eraill

Sut dewisir/dewiswyd y cyfranogwyr?

A ydyn nhw eisoes yn grŵp neu yn grŵp a ddynodir? Pwy ddynododd nhw? Allwch chi siarad â nhw am eu disgwyliadau cyn i chi ddechrau gweithio gyda nhw?

Beth maen nhw wedi'i gyfrannu at y prosiect?

Pa ddisgwyliadau sydd gynnyn nhw?

Beth yw anghenion penodol y grŵp o gyfranogwyr y byddwch chi'n gweithio â nhw?

Sut byddwch chi'n rheoli galwadau grŵp amrywiol o bobl?

Fydd angen asesiad risg arnoch chi?

A oes disgwyl i chi fynychu cyfarfodydd cynnydd?

Os na fydd, sut byddwch chi'n cofnodi cynnydd a rhoi/derbyn adborth yn ystod y cam cyflawni?

A oes unrhyw faterion diogelwch data? A oes angen i gyfranogwyr lofnodi ffurflenni rhyddhau/canïatâd?

Pwy fydd yn llofnodi'r rhain os na all y cyfranogwyr wneud hynny?

A oes materion diogelu?

Gyda phwy fyddwch chi'n siarad pe bai gynnwch chi unrhyw bryderon am gyfranogwyr?

Sut byddwch yn dogfennu eich ymwneud? Myfyrio amdano?

Pwy fydd yn penderfynu os oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun prosiect?

Monitro a Gwerthuso

Mae monitro a gwerthuso yn holl bwysig yn unrhyw brosiect – i'r sawl sy'n ariannu'r fath brosiectau (er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian ac yn gwireddu eu hamcanion trefniadol) ac i chithau fel unigolyn (er mwyn sicrhau bod y prosiect yn bodloni'ch disgwyliadau a bod eich ymwneud yn werth chweil).

Mae monitro yn cyfeirio at y gwiriadau a wneir wrth i'r prosiect symud ymlaen, er mwyn sicrhau ei fod yn cadw ar y trywydd iawn ac yn gweithredu yn ôl y cynllun. Mae monitro prosiect hefyd yn eich caniatáu i olrhain buddion wrth iddyn nhw ddigwydd, yn hytrach nag ymdrechu i'w dogfennu fisoedd neu flynyddoedd yn ddiweddarach ar ddiwedd y prosiect.

Fel rheol, arolwg mwy manwl ar ddiwedd y prosiect yw gwerthuso, i asesu'r buddion cyffredinol a ddeilliodd o'r prosiect i bawb gymerodd ran. Bydd yn ystyried arfer gorau a hefyd lle gellir dysgu gwersi ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

Sut bydd cynnydd y prosiect yn cael ei fonitro?

Sut bydd y prosiect yn cael ei ddogfennu?

Sut byddwch yn dogfennu eich ymwneud?

Pa mor aml mae partneriaid yn disgwyl i chi gyfathrebu â nhw/ymateb i gyfathrebu?

Faint o hyblygrwydd sydd ynghlwm â'r prosiect hwn? Pa rannau o'r prosiect na ellir eu newid?

Beth fydd yn digwydd os oes angen i'r prosiect esblygu?

Sut byddwch chi'n gorchfygu gwahaniaeth barn?

Pwy sy'n penderfynu yn y pen draw pe na bai modd cytuno?

Pwy ydy 'ffurfwyr barn' y prosiect?

Mae'r rhain yn ran fawr o unrhyw brosiect ac mae angen eu hystyried a'u cadw'n dryw, hyd yn oed os nad ydyn nhw yn rhan o'r broses yn swyddogol. Mae'n bosib mai cynghorwyr lleol neu'r wasg leol ac ati fydd y rhain.

Sut byddwch chi'n cadw'r prosiect ar y trywydd iawn?

Sut byddwch chi'n sicrhau bod y prosiect yn cadw'i ffocws wrth iddo ddatblygu?

At bwy allwch chi droi os ydych yn teimlo nad yw'r prosiect yn gwneud cynnydd yn ôl y gobeithion?

A gytunoch chi â chomisiynydd y prosiect ar berson y gallwch drafod ag o/â hi be bai gynnoch chi bryderon am gynnydd y prosiect?

Pwy fyddwch chi'n ei ollwng i lawr pe bai'r prosiect yn fethiant?

Beth fyddai'r effeithiau pe na bai'r prosiect yn gweithio? Rydych angen meddwl p'un a fyddai hyn yn effeithio arnoch chi eich hunan yn unig ynteu fydd pobl eraill wedi'u gollwng i lawr.

A oes proses glir i chi ddwyn y prosiect i ben pe baech chi'n teimlo na ellir ei gwblhau?

Beth fydd y broses pe baech chi o'r farn nad oes modd cwblhau'r prosiect neu os nad yw'n gweithio? Sut byddwch chi'n dwyn y prosiect i ben er mwyn sicrhau na fyddwch yn gwastraffu mwy o'ch amser?

Cwblhau

Bydd yr adran hon yn ystyried y cam lle gellir dweud fod y prosiect wedi'i gwblhau. Gall hwn fod yn bwynt anodd i'w fesur ac felly bydd angen i chi ystyried:

- Beth yw'r pwynt cwblhau? Pwy fydd yn penderfynu?
- Pryd fydd eich rôl chi wedi'i chwblhau?
- Pwy fydd yn gyfrifol am orffen y prosiect?
- Pwy fydd angen gwirio am y tro olaf a chadarnhau ei fod wedi'i gwblhau?
- Sut gellir cydnabod eich rôl hyd yn oed os nad oeddech yn rhan o'r cam olaf?

Beth fydd i'w weld ar ddiwedd y prosiect?

Beth yw'r hyn fydd rhaid iddo ddigwydd i'r prosiect fod wedi'i gwblhau?

Pryd fydd eich rôl chi wedi'i chwblhau? Fydd hyn cyn diwedd y prosiect? Os felly, sut byddwch chi'n aros yn rhan ohono?

Fyddwch chi'n cymryd rhan wrth wneud y darn olaf i'r prosiect? Neu fyddwch chi'n Neu fyddwch chi'n cymryd rhan wrth ei osod yn derfynol neu ei arddangos?

Ystyriwch faint o ran rydych yn ei disgwyl yn y prosiect wrth iddo ddod i ben. Fyddai ots gynnoch chi pe bai'r prosiect yn syniad i chi ond bod rhywun arall yn gyfrifol tan y diwedd?

Sut bydd y prosiect yn cael ei werthuso wedi iddo gael ei gwblhau?

Gall y buddion ymestyn y tu hwnt i'r cyfranogwyr at deuluoedd, gofalwyr, ysgolion a sefydliadau eraill. Sut gallwch chi fonitro hyn?

Sut byddwch chi'n diffinio p'un ai lwyddodd y prosiect hwn ai peidio?

A yw eich cyfraniad wedi'i gydnabod yn ffurfiol? Os nad yw, sut gellir gwneud hynny?

Hyrwyddo

Mae hyrwyddo eich cysylltiad â phrosiect yn cynyddu i'r eithaf y cyfle y bydd eich ymwneud yn arwain at gyfleoedd eraill. Bydd arweinydd y prosiect yn trefnu ei gyhoeddusrwydd ei hun ond, yn naturiol, bydd hwnnw'n canolbwyntio ar ei flaenoriaethau ei hun. Gan ddefnyddio'r dogfennau a gadwoch yn ystod y prosiect, gallwch hyrwyddo eich ymwneud mewn amrywiaeth o ffyrdd syml. Mae'r adran hon yn ystyried:

- Y pwyntiau allweddol a allech fod am ddwyn sylw atyn nhw mewn unrhyw gyhoeddusrwydd
- Y cyfryngau y dylech eu targedu
- Cyflawni unrhyw ymrwymiadau cyfreithiol i bartneriaid y prosiect

A oes unrhyw beth newydd am yr hyn fuoch yn ei wneud/ ydych wedi ei wneud?

Pwy allai fod â diddordeb mewn gwybod mwy am y prosiect?

Ystyriwch sefydliadau celf eraill, adrannau prifysgol, noddwyr a chyrrff perthnasol eraill yn ogystal â'r cyfryngau (lleol, rhanbarthol ac arbenigol) a'r cyfryngau cymdeithasol.

Pwy sy'n gyfrifol am farchnata/hyrwyddo'r prosiect?

A ydych am i'r gwaith gael ei hysbysebu/ei farchnata ac, os felly, sut wnewch chi hynny?

Pa gyhoeddusrwydd personol hoffech chi ei gael o'r prosiect hwn?

A oes raid i chi ofyn caniatâd y partner(iaid) neu gael ffurflenni rhyddhau i hyrwyddo'r prosiect?

Ar ôl y Prosiect

Awgryma ein ymchwil bod hyn yn ran hollbwysig o unrhyw brosiect – i bartneriaid ac artistiaid. Ynghyd â gwerthusiad ffurfiol terfynol, mae'n gyfle i adolygu eich rhan yn y prosiect, sicrhau etifeddiaeth barhaus y prosiect, datblygu perthnasoedd parhaus ac ystyried y mathau o brosiectau y mae angen i chi fod yn rhan ohonyn nhw yn y dyfodol i adeiladu eich sgiliau a'ch gwybodaeth.

Pwy gafodd fudd o'r prosiect?

Beth ddysgoch chi o'ch ymwneud â'r prosiect?

A fyddech chi'n gwneud unrhyw beth yn wahanol?

Beth yw'r buddion 'ychwanegu gwerth'?

A fyddech am ymwneud â phrosiect o'r math hwn eto?

Beth yw'r prif beth a ddysgoch chi?

A oedd unrhyw fuddion annisgwyl?

Sut allai eich arfer gael budd o'ch ymwneud?

Sut byddwch chi'n cynnal cysylltiadau â'ch partner(iaid) ar ôl cwblhau?

Ysgrifennwch 3 neu 4 o ffyrdd y byddwch yn gallu cynnal perthynas ar ôl cwblhau'r prosiect.

A yw'r canlyniad yr hyn a ddychmygoch chi? A ydych chi'n hapus ag ef?

A yw pawb felly?

Disgrifiwch yma sut mae canlyniadau terfynol y prosiect yn debyg neu'n wahanol i'r hyn oeddech yn disgwyl yn wreiddiol.

Beth fydd yn digwydd i'r cyfranogion rwan? A fydd angen eu cyfeirio at brosiectau eraill?

A allwch chi gael copi o'r dogfennau a'r gwerthusiadau?

A ydyn nhw'n gyfrinachol? Neu a yw partneriaid yn disgwyl i chi roi eich dogfennau iddyn nhw at eu defnydd nhw? E.e. fyddan nhw'n eich cydnabod chi os ddefnyddian nhw eich ffotograffau chi?

Astudiaethau Achos

Astudiaeth Achos # 1:

Glandŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru

Astudiaeth Achos # 2:

Prosiect Arwyddion Creadigol, Ysbyty Maelor Wrecsam

Astudiaeth Achos # 1: Glandŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru

Trosolwg o'r Prosiect

Penodwyd *Addo* gan Glandŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru a Chyngor Celfyddydau Cymru fis Medi 2013 i gurau a rheoli rhaglen tair blynedd o brosiectau artistiaid preswyl. Mae'r cyfnodau preswyl hyn yn archwiliol ac wedi'u seilio ar ymchwil, hynny yw, nid ydyn nhw'n arwain at weithiau celf mawr ond, yn hytrach, maen nhw'n gyfle i artistiaid a churaduron yng Nghymru i gynnal ymchwiliad creadigol o syniadau, pobl a lleoedd. Mae'r cyfnodau preswyl yn unigryw i'r lle hwnnw ac yn edrych ar syniadau penodol ym mhob lleoliad. Ymhlith y lleoliadau mae'r rhan ger Llangollen o Gamlas y Shropshire Union yng Ngogledd Cymru, Camlas Maldwyn yng Nghanolbarth Cymru a Chamlas Mynwy i Aberhonddu a Chamlas Abertawe yn y De.

Nodau ac Amcanion

Nodau cychwynnol Glandŵr Cymru wrth ddatblygu syniad y prosiect gyda CCC oedd:

- Dylai'r cyfnodau preswyl ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr achos strategol fel rhan o Weithiau Peirianwaith Mawr a Datblygiadau'r Glannau yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru neu yn y cyffiniau
- Datblygu Cytundebau Partneriaeth newydd gyda sefydliadau blaenllaw mewn meysydd diwylliannol a threftadaeth sydd ger dyfrffyrdd/ dociau allweddol yn Nghymru,neu yn y cyffiniau
- Dylid parhau â rolau Datblygu a Rhaglennu Celfyddydau Cyfoes, gyda datblygiad proffesiynol ar gyfer staff yr Ymddiriedolaeth
- Creu mwy o gyllid i sefydlu Rhaglen Celfyddydau Cyfoes barhaus ar gyfer y Dyfrffyrdd yng Nghymru
- Hybu Celfyddydau Cyfoes fel rhan annatod o waith yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru ar lefel uwch
- Dylid bod mwy o ymwybyddiaeth o'r dyfrffyrdd yng Nghymru, gyda chynnydd mesuradwy yn nifer yr ymwelwyr a diwydiannau creadigol ar hyd y dyfrffyrdd

Gweithgaredd

Datblygodd *Addo* gyfres o briffiau artistiaid ar gyfer y prosiect, sy'n nodi ethos y rhaglen, yn pwyntio at hanes a diwylliant pob lleoliad ac yn amlinellu yn glir yr hyn sydd i'w ddisgwyl gan yr artist a benodir yn y cyfnod ymchwil hwn.

Ar gyfer y pecyn cymorth, buom yn cyfweld â Mair Hughes a benodwyd i fod yn artist preswyl Maldwyn; yr artist i edrych ar ecoleg y gamlas mewn perthynas â thwf twristiaeth. Mae'r cyfnod preswyl yn cyd-fynd â Chais i Gronfa Treftadaeth y Loteri i gyfoethogi tirwedd y coridor a diogelu planhigion dŵr y gamlas, sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r rhan o'r gamlas sydd yng Nghymru hefyd yn Ardal Cadwraeth Arbennig oherwydd presenoldeb planhigion dŵr prin, dyfrgwn a llygod y dŵr.

Bu Mair yn cynnal yr hyn y mae'n ei ddisgrifio fel 'gwaith maes amgen' yn ystod y cyfnod ymchwil. Gellir disgrifio hyn orau trwy fap meddwl Mair, sy'n dangos sut gall yr holl wybodaeth wahanol a gasglwyd o'i chysylltiad â thrigolion lleol, twristiaid, staff Glandŵr Cymru ac arbenigwyr (archeolegwyr, er enghraifft) gychwyn cael ei phrosesu fel bod yr artist yn gallu gwneud synnwyr o'r cyfan.

Bu'n ymwneud hefyd â'r cyhoedd ehangach trwy gyfres o ddigwyddiadau sydd wedi cynnwys cyfrannu at weithgaredd oedd yno eisoes fel gŵyl 'Making Waves' yn Llanymynech.

Etifeddiaeth a Deilliannau

Bu'r rhaglen yn llwyddiant gan ei bod wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o nodau gwreiddiol y prosiect (creu prosiectau celf cyfoes, adeiladu perthnasoedd lleol, gweithio gyda staff a gwirfoddolwyr, taenu'r neges am arfer celf cyfoes, creu digwyddiadau, adeiladu cynulleidfaoedd ac adeiladu partneriaethau). Ar ben hynny, mae wedi cynhyrchu syniadau gwirioneddol ddiddorol am weithiau. Dylai'r arddangosfa sy'n cael ei chynllunio a'r cyhoeddi ddod â'r rhaglen gyfan ynghyd, gan alluogi'r artistiaid i greu rhai o'u prosiectau arfaethedig. Bydd yr arddangosfa yn ddigwyddiad gwych ar ddiwedd y cyfnod hwn a rhagwelwn y bydd yn arwain at waith pellach gydag artistiaid ar rwydwaith Cymru.

Astudiaeth Achos # 2:

Prosiect Arwyddion Creadigol, Ysbyty Maelor Wrecsam

Trosolwg o'r Prosiect

Mae'r prosiect hwn yn cynnwys cydweithio rhwng Adran Celfyddyd Gain Prifysgol Glyndŵr a Rhaglen Y Celfyddydau mewn Iechyd a Lles Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB). Cysylltodd cydlynnydd y rhaglen Iechyd a Lles â Sue Liggett (Darllenydd mewn Celf a Dylunio) sy'n addysgu ar y rhaglen gelf fis Hydref 2014 i drafod a fyddai'n bosib i fyfyrwyr weithio gyda'r adran cleifion allanol i wella'r arwyddion i ymwelwyr. Bydd myfyrwyr ar y rhaglen BA (Anrh) gelf yn cyflawni modiwl 20 credyd bob blwyddyn o'r enw Dyfodolau Creadigol, sy'n nodi bod raid iddyn nhw ddod o hyd i brofiad gwaith perthnasol i gyflogaeth yn y dyfodol. Gall hyn fod, er enghraifft, yn leoliad gwaith, curadu arddangosfa o waith celf neu ddod o hyd i ffyrdd eraill i gysylltu cynulleidfau gyda'u gwaith celf. Mae datblygu personol a phroffesiynol wrth graidd oes cwrs gradd ac mae ar ei orau pan gaiff ei gyflawni trwy gymryd rhan mewn prosiectau bywyd go iawn a lleoliadau fel hyn.

Nodau ac amcanion:

Y prif nod oedd cyfoethogi arwyddion yn Adran Cleifion Allanol Ysbyty Maelor Wrecsam trwy ddefnyddio arwyddion a gwaith celf ychwanegol yn greadigol.

Ymhlith yr amcanion oedd nodi tîm o fyfyrwyr i reoli, creu a chyflwyno datrysiadau arwyddion newydd sy'n helpu cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth ddod o hyd i'w ffordd drwy'r adran yn effeithiol a hefyd adeiladu partneriaethau rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) a Phrifysgol Glyndŵr.

Gweithgaredd

Cyflwynodd y cydlynnydd iechyd a lles yn BCUHB y prosiect arwyddion creadigol i'r myfyrwyr ac yna cafodd y rheiny a fynegodd ddiddordeb eu briffio ar fanylion y cymryd rhan. Trefnwyd y cyfarfod ffurfiol cyntaf yn yr ysbyty fis Chwefror 2015, a chafodd tîm craidd o 4 myfyriwr y cyfle i drafod syniadau cychwynnol gyda staff yn yr adran cleifion allanol. Rhoddwyd adborth a bu'r myfyrwyr yn addasu eu syniadau yng ngoleuni'r cyngor a roddwyd. Defnyddiwyd y prosiect fel enghraifft o 'arfer gorau' yn y Gynhadledd Nyrsio flynyddol a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Glyndŵr fis Mehefin 2015, lle gwahoddwyd y myfyrwyr i gyflwyno'u syniadau a ddaeth o'r briff, mewn cyd-destun gwahanol. Ers mis Mehefin 2015, bu'r myfyrwyr yn addasu syniadau a byddan nhw'n ailgyflwyno syniadau addasedig i'r ysbyty yn yr hydref, 2015, wrth baratoi at ddatblygu a gosod y gwaith. Mae'r prosiect yn barhaus ac nid oes dyddiad cau penodol; fodd bynnag, cynghorwyd y myfyrwyr i orffen y prosiect cyn mynd i mewn i'w 3ed flwyddyn. Nid oedd cyllideb benodol ar gyfer y prosiect ond cytunodd yr ysbyty i dalu am y deunyddiau.

Etifeddiaeth a Deilliannau

Ymhlith y Deilliannau Cynnar i fyfyrwyr mae:

- Credydau a enillir ar gyfer modiwl Dyfodolau Creadigol celfyddyd gain BA(Anrh)
- Sgwrs i fyfyrwyr ar 'Celf mewn Ysbytai' gan gydlynnydd rhaglen Y Celfyddydau mewn Iechyd a Lles Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB).
- Taith o amgylch yr adran cleifion allanol
- Cyflwyno'r syniadau cychwynnol i staff adran cleifion allanol ysbyty Maelor, a chael adborth
- Cyflwyno'r prosiect a rhoi adborth yn y gynhadledd nyrsio flynyddol
- Rhoi'r syniadau ar waith yn yr Adran Cleifion Allanol
- Myfyrwyr yn cael arweiniad gan ADDO ar reoli prosiect
- Myfyrwyr yn cyfrannu at ymchwil tuag at ddatblygu Deilliannau Cynnar Pecyn Cymorth Cywaith Cymru i Ysbyty Maelor
- Dull cost effeithiol o wella arwyddion
- Cryfhau perthnasoedd rhwng Cydlynnydd y rhaglen Celfyddydau mewn Iechyd a Lles, Prifysgol Glyndŵr ac Ysbyty Maelor
- Modd o dderbyn adborth am yr arwyddion yn yr adran

Mae'r prosiect wedi ymestyn perthnasoedd rhwng adran Celfyddyd Gain Prifysgol Glyndŵr ac Ysbyty Maelor a fydd, gobeithio, yn arwain at brosiectau pellach gyda myfyrwyr ym maes Iechyd a Lles mewn ysbytai lleol yn BCUHB. Mae prosiectau gyda rhanddeiliaid allanol yn helpu ffurfio datblygiad cwricwlwm celfyddyd gain i sicrhau y bydd gan raddedigion yr hyn sydd ei angen arny'n nhw cyn eu cyflogi. Nod cynllun strategol Canolfan Ymchwil y Cyfryngau, Celf a Dylunio Prifysgol Glyndŵr yw ymestyn ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned a gall partneriaethau fel hyn arwain at brosiectau ymchwil mwy uchelgeisiol sy'n cael effaith ar y gymuned leol ac, o bosib, ar gyflogaeth yn GDd Cymru. Y gobaith yw y bydd BCUHB yn gallu ymgorffori'r partneriaethau hyn yn ei gynllunio strategol i alluogi adrannau eraill i gael budd o brosiectau tebyg.

GEIRFA

Cofnodi Damweiniau	Dyma'r weithdrefn o ran nodi unrhyw ddigwyddiad neu ddamwain a gweithredu'n briodol. Gall hyn fod ar lafar neu'n ysgrifenedig trwy ffurflen/llyfr damwain penodol.
Nodau	Yr hyn mae'r prosiect yn bwriadu ei gyflawni – ei ddiben. Gall fod mwy nag un nod gan y prosiect. Gall y partneriaid fod â nodau gwahanol i'w gilydd
Cynulleidfa	<p>Y bobl sy'n gweld y prosiect ar ôl iddo gael ei gwblhau. Os yw'r prosiect yn y cylch cyhoeddus, efallai bydd cynulleidfa tra mae'r broses greadigol ar waith.</p> <p>Dylai gwybod pwy allai fod yn y gynulleidfa, sut i ddenu'r gynulleidfa (h.y. sut byddan nhw'n gwybod am y prosiect) a sut bydd rheoli'r ymgysylltu hyn (h.y. beth fyddan nhw'n ei wneud pan fyddan nhw'n ymgysylltu â'r prosiect), fod ymhlith ystyriaethau eraill.</p>
Arfer gorau	Gweithdrefnau cydnabyddedig o ran gwneud tasg neu weithred benodol sydd wedi'u profi o ran cael canlyniadau gwell na dulliau eraill e.e. cynhyrchu canllaw arfer gorau ar dalu artistiaid.
Galwadau	Hysbysebion agored am gyfleoedd i artistiaid fel arddangosfeydd, cyfnodau preswyl sydd angen ymateb gan artistiaid.
Comisiynydd	Sefydliad neu unigolyn sydd â'r dasg o gyflawni prosiect, neu ym maes y celfyddydau, cyflogi artist i gyflawni prosiect neu waith celf.
Contract/ Is-gontract	<p>Cytundeb a wnaed gan ddau barti neu fwy, o ran dyletswyddau neu rolau, sydd ag ymrwymadau cyfreithiol. Dogfen ysgrifenedig yw fel rheol, yn rhestru cyfres o bwytiau sydd wedi'u cytuno a bydd y partïon sy'n cytuno yn ei llofnodi. Gellir defnyddio llythyr byr i lunio contract hefyd. Mae cytundebau ar e-bost neu lafar yn dod yn fwy cyffredin. Rhaid dangos bod y ddau barti wedi cytuno â'r cynnwys.</p> <p>Is-gontractio rhywun yw rhoi rhan o'r gwaith i rywun arall. Fel rheol, mae'n rhaid i'r cyflogwr gwreiddiol gytuno â hyn neu rhaid iddyn nhw gael gwybod cyn dod ag is-gontractwr i mewn.</p>
Diogelu Data	Mae'r ddeddf diogelu data yn rheoli sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio a'i chadw gan sefydliadau eraill (gan gynnwys adrannau'r llywodraeth a busnesau). Yn y bôn, ni allwch anfon gwybodaeth fel cyfeiriadau, rhifau ffôn, e-bost ac ati a roddwyd i chi gan unigolyn at un diben h.y. i gofrestru ar gyfer gweithdy, at rywun arall heb i'r unigolyn yna gytuno ymlaen llaw.

DBS	Gwiriad CRB (Swyddfa Cofnodion Troseddol) oedd hwn yn flaenorol ond bellach y DBS (Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) sy'n gwirio addasrwydd unigolyn at weithio gyda grwpiau penodol (plant, oedolion agored i niwed (y rheini sydd ag anableddau corfforol neu feddyliol, henoed bregus ac ati)) ac yn cyhoeddi dogfen i gofnodi hynny. Bydd y gwiriad yn edrych ar unrhyw droseddau a gofnodwyd yn flaenorol gan gynnwys rhybuddiadau neu gyfnodau yn y carchar.
Yn Bosib ei gyflawni/ yn Amhosib ei gyflawni	Datganiad ynghylch p'un a yw gweithgaredd a gynlluniwyd yn gyraeddadwy ai peidio, o dan delerau'r prosiect.
Datgelu	<p>Cyfeiria datgelu at wybodaeth gyfrinachol a ellir ei rhoi i bartneriaid am y prosiect, partneriaid eraill y prosiect a/neu y cyfranogwyr.</p> <p>Gallai hyn fod yn ddatgelu anuniongyrchol (ar lafar, ysgrifenedig, awgrymiadol neu gasgliadau) datgelu uniongyrchol (pan fo rhywun sy'n gysylltiedig yn dweud yn uniongyrchol wrthoch chi) neu ddatgeliad trydydd parti (rhywun arall yn rhoi'r wybodaeth hon i chi).</p> <p>Dylai fod gweithdrefn eglur i ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn.</p>
Dogfennaeth	Proses gofnodi'r prosiect. Gallai hyn fod trwy wybodaeth ysgrifenedig fel adroddiadau, taflenni a thestunau eraill fel blogiau, ar y we neu drwy ffotograffau, lms neu animeiddiadau.
Artist ar ddechrau gyrfa	Artist sydd wedi graddio ond nad yw'n cael ei (h)ystyried wedi 'sefydlu' mewn steil arbennig o arfer artistig.
Gwerthuso	Cysylltir monitro a gwerthuso â'i gilydd yn aml. Fel rheol, arolwg mwy manwl ar ddiwedd y prosiect yw gwerthuso, i asesu'r buddion cyffredinol a ddeilliodd o'r prosiect i bawb gymerodd ran. Bydd yn ystyried arfer gorau a hefyd lle gellir dysgu gwersi ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.
Addas at y diben	P'un a yw rhywbeth yn briodol ar gyfer yr hyn y'i defnyddir i wneud e.e. cynnal sgwrs mewn ystafell ar gyfer 20 o bobl pan fo 40 o bobl wedi archebu lle.
Yswiriant	Yr yswiriant mwyaf cyffredin y mae gofyn i artist fod ag ef yw Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus sy'n amddiffyn yr artist ac unrhyw gyflogwr pe bai achos o esgeuluster yn erbyn yr artist yn ystod eu gweithgareddau beunyddiol. Ar adegau, gofynnir i artistiaid am Yswiriant Indemniad Proffesiynol i gwmpasu gwaith diffygiol e.e. pe bai gwaith cerflunio yn chwalu'n ddarnau oherwydd nad yw wedi'i wneud yn iawn.
Anfoneb	Dogfen a gynhyrchwyd gan werthwr (nwyddau neu wasanaethau) yn rhestru eitemau am dâl. Rhy ffioedd/cyfraddau; cyfeiriad; dyddiad; dull talu a manylion; telerau (y nifer uchaf o ddyddiau cyn dylid derbyn tâl) a ph'un ai yw'r sawl a'i anfonodd wedi cofrestru ar gyfer TAW ai peidio.

Etifeddiaeth	Sut bydd y prosiect neu waith o brosiect yn parhau i'r dyfodol. E.e. gall etifeddiaeth prosiect fod yn gyhoeddiad neu'n wefan a fydd ar gael y tu hwnt i ddiwedd y prosiect.
Methodoleg	Datganiad o sut y gwneir rhywbeth. Cyfres o gamau fydd hyn fel rheol h.y. bydd methodoleg ymchwil yn cynnwys ymchwil ddesg, ymweliadau safle a chyfweliadau.
Monitro	Mae monitro yn cyfeirio at y gwiriadau a wneir wrth i'r prosiect symud ymlaen, er mwyn sicrhau ei fod yn cadw ar y trywydd iawn ac yn gweithredu yn ôl y cynllun. Mae monitro prosiect hefyd yn eich caniatáu i olrhain buddion wrth iddyn nhw ddigwydd, yn hytrach nag ymdrechu i'w dogfennu fisoedd neu flynyddoedd yn ddiweddarach ar ddiwedd y prosiect.
Sefydliadau nad ydynt yn ymwneud â'r celfyddydau	Unrhyw sefydliad sy'n ymwneud â'ch prosiect nad yw celf yn swyddogaeth graidd e.e. ymddiriedolaeth ysbyty. Mae'n eithaf posib y bydd gan y sefydliad brofiad a staff yn gweithio yn y celfyddydau ond rhan fach o'r sefydliad fyddan nhw.
Amcanion	Nod neu gam ar y ffordd i gyflawni nodau'r prosiect. I gyfateb, gellir dweud mai eich nod oedd croesi afon a'ch amcanion yw'r cerrig sarn sydd eu hangen arnoch i'w chroesi. Dylai amcanion fod yn SMART – sbesiffig, mesuradwy, amcan clir, realistig, terfyn amser.
Ffurfwyr Barn	Dyma bobl ym maes y celfyddydau sydd â golwg cyffredinol ar arfer celfyddydol cyfoes, fel rheol. Bydd y bobl hyn yn mynd ati i sôn am eich prosiect trwy'r cyfryngau cymdeithasol ond hefyd fel enghreifftiau o arfer da (neu ddrwg).
Nodau Sefydliadol	Nodau strategol cwmni wedi'i nodi fel canllaw staff i helpi cyflawni deilliannau grŵp.
Perchnogaeth	Teimlo cyswllt â'r prosiect mewn modd sy'n ei alluogi i ddod yn eiddo i chi.
Cyfranogwyr	Y bobl hynny sy'n cymryd rhan yn eich prosiect h.y. y bobl fydd yn cymryd rhan mewn gweithdai, neu'r bobl sy'n ymateb i arolwg.
Partner	Y sefydliad neu dîm o bobl sy'n dechrau'r prosiect, ei reoli a'i ariannu.
Gweithdrefnau	Set o ganllawiau, ysgrifenedig yn aml, o ran sut y dylid gwneud rhywbeth. Er enghraifft, gweithdrefnau diogelu plant.
Adroddiad Cynnydd	Adroddiad interim (fesul cam) sy'n rhoi gwybod i bawb sut mae'r prosiect yn gyrru 'mlaen. Mae hyn yn wahanol i adroddiad ar ddiwedd prosiect gan ei fod yn dwyn sylw at yr hyn sydd ar ôl i'w wneud, gan gynnwys amserlen yn aml.

Cyllideb prosiect	Yr arian (arian ac adnoddau) sydd wedi'i ddyrannu i'r prosiect. Mae'n cynnwys incwm (ffynhonnell yr arian) a gwariant (lle bydd yr arian yn cael ei wario ac ar beth).
Arweinydd y Prosiect	Yr unigolyn sy'n arwain y tîm o bartneriaid.
Cychwynnydd y Prosiect	Yr unigolyn neu'r sefydliad a gafodd y syniad am y prosiect yn wreiddiol. Nid y nhw fydd yn ariannu'r prosiect o reidrwydd.
Mesur	Fe'i defnyddir yn aml yn y celfyddydau i ddechrau mesur prosiectau neu ddigwyddiadau a allai fel arall gael eu gweld o ran ansawdd yn unig h.y. gofynnir yn aml i brosiectau nodi nifer y cyfranogwyr/cynulleidfa.
Holiadur	Arolwg sy'n ceisio mesur agweddau at fater trwy gaffael ymatebion i gyfres o gwestiynau sydd â dewis o atebion.
Adnoddau	Gall fod yn arian, deunyddiau, sgiliau neu amser a ellir eu defnyddio tuag at nodau'r prosiect.
Asesiad Risg	Archwiliad trefnus o dasg, swydd neu broses y gallwch ei gynnal. Bydd hyn yn nodi unrhyw beryglon neu risgiau sylweddol sy'n bresennol yn y gweithgaredd. Gellir rheoli'r risgiau hyn a nodwyd yn well o'r herwydd.
Diogelu	Y systemau sy'n ofynnol i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed rhag risg o niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol.
Cwblhau/ Cadarnhau fod y prosiect wedi'i Gwblhau	Dyma gwblhau'r prosiect yn ffurfiol. Gall gynnwys llenwi ffurflen neu gytuno gyda phartneriaid bod prosiect wedi dod i ben.
Pecyn Cymorth	Set o adnoddau sy'n manylu ar dasg arbennig, a chyfres o offer sy'n cynorthwyo cwblhau'r dasg honno.
Gwirfoddoli	Gweithio ar brosiect heb dderbyn tâl ariannol. Fodd bynnag, mae'n bosib ad-dalu arian am gostau teithio, bwyd neu lety.
Ychwanegu gwerth	Cynyddu gwerth prosiect wrth iddo ddatblygu, er enghraifft, trwy ychwanegu gweithgaredd fel gweithdai cymunedol, sgysiau neu bartneriaethau newydd.
Gweithdy	Cyfarfod neu weithgaredd grŵp pan fydd rhywbeth yn cael ei wneud/ei greu neu ei drafod yn drylwyr.

OFFER

Rydym wedi cynnwys cyfres o offer yma rydym ni, ynghyd â'r sawl y gwnaethom eu cyfweld, o'r farn y bydd yn cynorthwyo datblygu a chyflwyno prosiect mewn camau penodol. Efallai na fydd arnoch angen defnyddio'r rhain i gyd, nac efallai ddim ohonyn nhw. Datblygwyd rhai i'w defnyddio yn y Pecyn Cymorth hwn, daethom o hyd i eraill ar y rhyngwyd. Felly rydym wedi penderfynu cynnwys dolen i'r rhain yma fel y gellir eu hadolygu a'u diweddarau yn achlysurol.

Gellir lawrlwytho ffeil zip o'r offer yn: <http://www.addocreative.com/toolkit/tools.zip>

DIOLCHIADAU

Datblygwyd y pecyn cymorth hwn wedi sgysiau rhwng Addo a Dr. Susan Liggett (Prifysgol Glyndŵr) am faterion yn ymwneud â datblygu prosiectau artist o ansawdd. Roedd Addo wedi nodi hyn fel maes i ymchwilio iddo beth amser ynghynt. Mae Cronfa Sbarduno Artworks Cymru wedi ein galluogi i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn a newid profiadau artistiaid ar ddechrau'u gyrfa, myfyrwyr a phartne

Rhodddwn ddiolch arbennig i:

Dr Susan Liggett – Prifysgol Glyndŵr; ymchwilwyr Megan Wyatt a Clare Harding; y partneriaid astudiaeth achos – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Glandŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru; myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr a'r holl artistiaid a roddodd eu hamser i gyfrannu at y ddogfen hon ar wahanol gamau o'i datblygiad.

